CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

PANEL ANSAWDD

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Panel ddydd Mercher, 12 Mawrth 2008 am 10.30yb yn ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.

Presennol: Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); James Nelson (Coleg Llandrillo Cymru); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Julie Brake (NEWI); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Elwyn Hughes (Prifysgol Bangor); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); David Hedley Williams (Nant Gwrtheyrn); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Dr Ioan Ap Dewi (Prifysgol Bangor); Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); Andrew Hepton (Coleg Harlech WEA); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Diane Martin (Coleg Glannau Dyfrdwy); Non Lewis Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd Gwenan Owain, Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9 IONAWR 2008

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2008 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

Bydd HH yn addasu'r cynllun dysgu unigol ac yna bydd yn ei gylchredeg at y darparwyr. **HH**

Dengys fod cynnydd o tua 60% yn yr ymrestriadau ar gyfer arholiad Mynediad, CBAC. Cafwyd nifer o drafferthion efo ystafelloedd ar gyfer cynnal yr arholiad. Bydd yn sicr rhaid bod yn dynnach efo dyddiad cau'r arholiadau y flwyddyn nesaf gan fod nifer o geisiadau yn cael eu derbyn yn hwyr. Mae posibilrwydd y bydd yr arholiadau yn cael ei cynnal symud i Mehefin 2009.

Apelir am holiaduron gwerthuso gan y Darparwyr. **Darparwyr**

4. ADRODDIAD HUNAN ASESU

Mynegodd HH y bydd adroddiad drafft Hunan Asesu yn barod ymhen pythefnos, mynegodd bod nifer o sylwadau a dderbyniwyd gan y darparwyr yn hynod ddefnyddiol. ***Ar ôl gwyliau'r Pasg bydd grŵp bychan yn cynnwys Gwenan Owain, Coleg Llysfasi, James Nelson, Coleg Llandrillo Cymru a Sharon Owen, Coleg Menai yn dod ynghyd i drafod yr adroddiad drafft.*** **ID**

5. *ARSYLWADAU DOSBARTH*

Mae HH wedi adrodd yn ôl i'r darparwyr, y bwriad oedd arsylwi tiwtoriaid Popeth Cymraeg ond oherwydd yr archwiliad yn Sir y Fflint bydd y Ganolfan yn arsylwi tiwtoriaid Sir y Fflint yn unig. Bydd Estyn yn gwahodd tiwtoriaid i fynd ar ei cwrs arsylwi, apelir i'r darparwyr ryddhau aelodau o staff i gael mynd ar y cwrs.

6. HYFFORDDI

Bydd y tiwtoriaid yn derbyn sesiynau hyfforddiant gan y Ganolfan cyn cael eu harsylwi, mynegodd GO ei bod yn gwerthfawrogi'r wybodaeth y maent yn eu derbyn gan y Ganolfan. Bydd angen ysgrifennu trefn apeliadau i mewn i'r adroddiad.

7. ADRODDIADAU ESTYN

Mae dau adroddiad wedi cael ei gyhoeddi gan Estyn yn ddiweddar – Caerdydd a'r Fro a Sir Gaerfyrddin. Mae rhai argymhellion perthnasol i'w gweld yma y bydd y Ganolfan yn rhoi sylw iddynt.

8. AROLWG SIR Y FFLINT

Bydd arolwg Sir y Fflint yn cael ei gynnal ar 12- 23^{ain} Mai 2008. Bydd CiO yn cael ei arolygu fel maes. Bydd Tîm o arsylwyr o'r Ganolfan yn arsylwi tiwtoriaid Sir y Fflint yn ytsod yr wythnos sy'n dechrau ar 17 Mawrth 2008.

9. U.F.A.

Bydd HH yn anfon copi electroneg o arweiniad ar reolaeth Estyn i'r darparwyr.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher, 14eg Mai 2008 am 11.00yb, Canolfan Dyfodol@Treffynnon, Stryd Fawr, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7LH